

## **Cwestiynau a ofynnir yn aml gan weithwyr**

### **Sut y gallaf ymaelodi?**

Y ffordd cyflymaf a hawsaf i fod yn aelod o Cambrian Credit Union yw mewngofnodi ar [www.cambriancu.com](http://www.cambriancu.com) a chlicio ar y blwch yn y gornel uchaf ar yr ochr dde dan y label "register". O dan yr adran "Personal Membership", cliciwch ar "Apply Online". Llenwch y cais i ymaelodi a chliciwch "Apply for Membership".

### **Sut allaf gael mynediad i fy nghyfrif a thynnu arian allan?**

Unwaith y byddwch wedi derbyn eich rhif aelodaeth, gallwch gofrestru i gael mynediad ar-lein i'r cyfrif. Gallwch weld eich balans a thrafodion trwy ein gwefan, a thynnu arian i'w roi mewn cyfrif banc penodol. Gallwch hefyd gwneud cais i dynnu arian allan drwy anfon e-bost atom, ffonio un o'n swyddfeydd neu hyd yn oed anfon neges destun!

### **Beth os ydw i eisiau cynilo rhagor neu anfon taliadau unwaith yn unig?**

Os ydych yn sylweddoli y gallwch gynilo mwy na'r swm a ddewiswyd gennych yn wreiddiol i dynnu o'ch cyflog, gallwch ddewis gynyddu eich cynilon cyflog trwy lenwi ffurflen ddiwygio. Os hoffech anfon taliadau unwaith yn unig, gallwch wneud hynny gan ddefnyddio ein manylion banc. Gellir gweld y manylion hyn yn y neges e-bost croesawu.

### **Pa mor ddiogel mae fy arian?**

Mae Undeb Credyd Cyfyngedig yn aelod o'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol a gefnogir gan y llywodraeth, yn diogelu adneuoedd unigol o hyd at £75,000. Mae wedi ei awdurdodi gan Awdurdod Rheoleiddio Prudential a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac Awdurdod Rheoleiddio Prudential. Rhif cofrestru: 213672

### **Beth yw yswiriant bywyd am ddim?**

Bydd yswiriant cynilon yn talu am 100% o'ch cynilon hyd at 65 oed a hyd at uchafswm o £5,000, hynny yw, pe baech yn marw'n iau na 65 oed byddwn yn rhoi swm sy'n cyfateb i'ch cynilon a'i dalu i fuddiolwr o'ch dewis. Am fanylion llawn ewch i [www.cambriancu.com](http://www.cambriancu.com)

### **Am ba hyd y bydd rhaid i mi gynilo cyn y gallaf wneud cais am fenthyciad?**

Gellir ymaelodi a gwneud cais am fenthyciad ar yr un pryd. Ar hyn o bryd nid yw Cambrian Credit Union yn ei gwneud hi'n ofynnol i aelod gynilo cyn gwneud cais am fenthyciad.

### **A fydd fy nghyflogwr yn gwybod os byddaf yn cael benthyciad?**

Na fydd - oni bai eich bod yn dewis dweud wrthynt. Os bydd eich ad-daliadau yn cael eu tynnu o'ch cyflog, yr unig beth a fydd swyddog cyflogres eich sefydliad yn ei wybod yw bod arian yn cael ei anfon at Cambrian Credit Union. Ni fyddant yn gwybod a yw'r arian yn cael ei gymryd i ad-dalu benthyciad neu'n benodol at adeiladu eich cynilon.

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â'n Hadran Cyflogres:

payroll@CambrianCU.com